**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon CWLS(2)-02-03(p.6)**

**Dyddiad:** **2 Gorffenaf 2003**
**Amser:** **9.00 – 12.05**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**TEITL: YSTYRIAETH GYCHWYNNOL O'R BLAENORIAETHAU AR GYFER CYLCH CYNLLUNIO’R GYLLIDEB 2003**

## DIBEN

1. Rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried blaenoriaethau’r gyllideb ym mhortffolio'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn unol â Rheolau Sefydlog 9.8, 19.1 a 19.2.

## ARGYMHELLIAD

2. Bod y Pwyllgor yn trafod y materion isod ac yn cyflwyno ei sylwadau ar y blaenoriaethau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn y cam hwn o'r Cylch Cynllunio gwahoddir y Pwyllgor i fynegi barn ar flaenoriaethau cyffredinol. Bydd cyfle i'r Pwyllgor fynegi barn ar gyllidebau mwy manwl ar ôl y toriad wedi llunio drafft.

## AMSERU

3. Er mwyn cadw at yr amserlen a bennwyd gan y Gweinidog Cyllid ar gyfer y cylch cynllunio hwn, rhaid i'r Pwyllgor roi ateb ffurfiol i'r Gweinidog erbyn 31 Gorffennaf 2003.

## CEFNDIR

4. Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid at Gadeiryddion pwyllgorau pwnc ar 10 Mehefin 2003 yn amlinellu proses gynllunio a chyllidebu'r Cynulliad o 2004-05 ymlaen yn unol â Rheol Sefydlog 19.1. Yn y cylch cynllunio hwn bydd cyllidebau pendant yn cael eu pennu ar gyfer 2004-05 a chyllidebau dangosol ar gyfer y 2 flynedd ddilynol. Mae copi o'r llythyr yn ***Atodiad 1*** a gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y gellid addasu'r blaenoriaethau os yw amgylchiadau'n newid, gan na fydd modd caniatáu fel arfer gwariant ychwanegol sy'n uwch na'r cyllidebau dangosol.

5. Ceir yn ***Atodiad 2*** ddarpariaethau'r gyllideb y cytunwyd arnynt ym Mawrth 2003.

6. Nodir fy sylwadau ar flaenoriaethau’r portffolio Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon wedi'u nodi yn y papur hwn, sydd yn y cyd-destun cyffredinol a ddarparwyd gan y llythyr oddi wrth y Gweinidog Cyllid.

## BLAENORIAETHAU AR GYFER CYLCH CYNLLUNIO'R CYLLIDEB

7. Mae’r Cylch Cynllunio hwn yn bwysig o ran cyrraedd y targedau a bennwyd yn y Cynllun i Gymru, a'r Cynlluniau Gweithredu yn Creative Future:Cymru Greadigol, Iaith Pawb a'r Strategaeth Chwaraeon arfaethedig.

8. Mae'r Cynllun i Gymru a Cymru Greadigol wedi pennu targedau ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru tan 2010. Mae Cymru Greadigol hefyd yn nodi’r camau sydd wedi’u cymryd gan Lywodraeth y Cynulliad hyd yn hyn i hyrwyddo diwylliant, ac mae'n pennu targedau trwy ei 8 Cynllun Gweithredu i wireddu’r 'Weledigaeth ar gyfer 2010." Mae gwaith da wedi'i wneud hyd yma mewn perthynas â **Creative Future: Cymru Greadigol**. Yn ystod 2001/2 a 2002/3, roedd 95 o'r 103 targed wedi'u cyrraedd neu'n dod yn eu blaen yn dda.

9. Fy mhrif egwyddor yw bod angen i ni sicrhau nad yw diwylliant yn rhywbeth ar gyfer pobl freintiedig yn unig. Byddaf yn canolbwyntio ar roi gwell mynediad i bawb, annog pobl i gymryd rhan a hyrwyddo rhagoriaeth. Byddwn yn parhau i ddatblygu a phwysleisio manteision diwylliant a chwaraeon trwy'r strategaethau cyfiawnder cymdeithasol a chymunedau cynaliadwy. Rydym wedi sefydlu **Cronfa Ddiwylliant** er mwyn symleiddio'r gyllideb Ddiwylliant a rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen i gyflawni'r amcanion hir dymor a bennwyd yn y Strategaeth Ddiwylliant.

10. Mae prif flaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer y gyllideb wedi'u hamlinellu ym maniffesto'r blaid Lafur, sef:

    **Cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden corfforol**
    Hoffwn weld mwy o bobl yn byw bywydau iach a heini ac yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Rhaid i ni ddatblygu cynlluniau cyn gynted â phosibl i gyflwyno mynediad am ddim i byllau nofio awdurdodau lleol i blant a'r henoed. Byddwn hefyd yn annog mwy o bobl i ddefnyddio cyfleusterau megis traciau loncian a beicio, ac yn annog cymunedau i ddefnyddio caeau chwarae.

    **Cefnogi'r Iaith Gymraeg**
    Buddsoddi'n sylweddol i hyrwyddo'r Gymraeg trwy Iaith Pawb, a rhoi cymorth i ddysgwyr a'r sefydliadau sy'n gyfrifol am ddatblygu'r iaith. Hyrwyddo Cynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg a datblygu atebion ymarferol yn y gymuned.

    **Oriel Celfyddyd Gymreig Genedlaethol ac Oriel Ddigidol Genedlaethol**
    Byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o sefydlu Oriel Celfyddyd Gymreig Genedlaethol ac Oriel Ddigidol Genedlaethol.

    **Datblygu gwasanaethau llyfrgell**
    Datblygu gwasanaethau llyfrgell gan ddefnyddio mwy o dechnoleg newydd ac ymestyn oriau agor.

    **Gwella'r ddarpariaeth sianelu digidol yng Nghymru**
    Gweithio tuag at sicrhau bod sianelu digidol a sianelu teledu Cymru ar gael i fwy o bobl.

A hefyd:

**Creative Future:Cymru Greadigol**
Parhau i gefnogi'r camau breision sydd wedi'u cymryd eisoes mewn perthynas â *Creative Future:Cymru Greadigol* trwy ddefnyddio'r Gronfa Ddiwylliant i gyflawni ymrwymiadau'r cynllun gweithredu.

**Cadw**

Parhau i sicrhau bod y safonau gwarchod a chyflwyno yn cael eu cynnal yn yr henebion sydd o dan ofal y wlad, a hefyd gwneud y gorau o'r cyfraniad y gall treftadaeth adeiledig ei wneud i ansawdd bywyd a, thrwy ddenu ymwelwyr i Gymru, lles economaidd y wlad.

**Strategaeth Chwaraeon**
Bydd ein strategaeth chwaraeon yn ategu ein polisïau hybu iechyd, ac ym maes datblygu economaidd byddwn yn cyfuno ein strategaethau twristiaeth ddiwylliannol a digwyddiadau cenedlaethol.

**Mae'r atodiadau ar gael yn Saesneg yn unig**

**Annex 1**

**Finance Minister's BPR letter to Committees, 10 June 03**

**Sue Essex AM**
***Minister for Finance, Local Government and Public Services***
***Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus***

Our ref:

Your ref:

Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA
Switsfwrdd: 029 2082 5111 GTN: 1208
Ffacs: 029 2089 8131

Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA
Switchboard: 029 2082 5111 GTN: 1208
Fax: 029 2089 8131

Chairs of the Subject Committees
The National Assembly for Wales

10 June, 2003

**Dear Colleagues**

**2003 BUDGET PLANNING ROUND**

This letter sets out how I intend to deal with the Assembly's planning and budgeting process for 2004-05 onwards. In accordance with Standing Order 19.1 I request the views of Committees on the priorities for the Assembly's expenditure in 2004-05**.** Assembly Committees are requested to respond by 31 July at the latest.

The budget for 2004-05 is the second year of the Spending Review conducted by the Assembly in 2002. The Assembly has therefore already agreed indicative budgets for 2004-05, which were set out and approved in the Final Budget last November. Our total budget for 2004-05 is £11.8 billion - 5.6 per cent more than 2003-04.

Because the indicative budgets for 2004-05 are already known and approved, I suggest that Committees consider how the priorities covered by the spending plans may need to

be adjusted in the light of changing circumstances and commitments. In most cases, bids for spending over and above the indicative budgets are unlikely to succeed.

Committee Chairs will recall that the budget line for Health and Social Care will be adjusted following consideration of the Wanless Report expected in the near future. Members will note that there will also be a need to respond to the emerging expenditure needs in local government and these will be covered in the Local Government Revenue Settlement, which will be progressed later in the financial year.

In preparing my Draft Budget I will take account of the views you submit together with my own consultations with Ministerial colleagues. I intend to bring forward the Draft Budget for the consideration of Assembly Members in October or early November.

I am writing in similar terms to the Chairs of the other Committees.

Yours sincerely

**Annex 2**

**Culture MEG 2003/4 to 2005/6 as at Supplementary Budget stage March 2003 (Figures in £000)**

| Expenditure Groups | 2003-04 plans | 2004-05 | 2005-06 |
|---|---|---|---|
| **National Museums & Galleries of Wales** | 21,224 | 21,578 | 21,659 |
| **National Library of Wales** | 11,497 | 11,529 | 11,593 |
| **Arts Council of Wales** | 2,154 | 2,154 | 2,154 |
| **Sports Council for Wales** | 2,650 | 2,720 | 2,868 |
| **Welsh Language** | 2,860 | 3,439 | 3,955 |
| **Other Arts and Libraries** | 1,695 | 1,048 | 1,053 |
| **Culture Fund** | 46,557 | 53,392 | 59,972 |
| **CADW** | 7,746 | 8,018 | 8,290 |
| **RCAHMW** | 1,614 | 1,614 | 1,614 |
| **Total** | **97,997** | **105,492** | **113,158** |

Provision for the Wales Millennium Centre is contained in End Year Flexibility/Pressures monies. The Welsh Assembly Government has committed up to £37m to the project.